# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 20-08 (p1) : 10 Gorffennaf 2008**

## Cyfraniad Economaidd Addysg Uwch Ymchwiliad - Cyflwyniad Atodol (Mehefin 2008) Gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)

1 Ymateb yw'r cyflwyniad hwn i ohebiaeth gan Glerc y Pwyllgor yn gwahodd CCAUC i roi tystiolaeth lafar bellach ar 10 Gorffennaf 2008 ac i roi ei farn mewn ysgrifen ar agweddau ar y dystiolaeth y mae'r Pwyllgor wedi'i derbyn hyd yma.

2 Mae CCAUC wedi dilyn hynt yr ymchwiliad â diddordeb mawr. Bu'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn fanwl ac eang ei chwmpas, ac mae wedi codi llawer her. Yn y nodyn hwn ni allwn roi sylwadau ond ar ychydig o'r materion a godwyd.

3 Yn ein tystiolaeth gychwynnol, awgrymwyd bod sefydliadau addysg uwch (SAUau) yn cyfrannu at yr economi mewn tair prif ffordd:

(i) fel cyflogwyr ac fel defnyddwyr nwyddau a gwasanaethau (fel unrhyw gorff arall);

(ii) drwy ddarparu pobl fedrus;

(iii) drwy gymhwyso gwybodaeth.

4 Cyflwynodd nifer o dystion dystiolaeth mewn ffordd gyffelyb, gan atgyfnerthu'r dystiolaeth dros gyfraniad eang addysg uwch. Wrth ymateb i'r dystiolaeth a gasglwyd, byddwn yn canolbwyntio ar feysydd (ii) a (iii) uchod, sef darparu pobl fedrus a chymhwyso gwybodaeth.

5 Ond cyn gwneud hyn, hoffem bwysleisio tair neges sy'n dod i'r amlwg o lawer o'r dystiolaeth a dderbyniwyd, ac ychwanegu pedwerydd pwynt rhagarweiniol:

(i) Un ymhlith llawer math o gorff sy'n cyfrannu at ddatblygiad economaidd Cymru yw SAUau. Yn ein barn ni, mae angen hyrwyddo mewn ffordd gydlynol system arloesed yng Nghymru sy'n integreiddio'r hyn y gall AU ei gyfrannu â'r hyn y gall partneriaid allweddol eraill yn y sectorau preifat a chyhoeddus ei gyfrannu, gan gynnwys ysgolion, colegau AB, busnesau a chyflogwyr eraill, ac amrywiaeth eang o Adrannau Llywodraeth y Cynulliad a Chyrff Noddedig. Fel y nododd Coleg Menai yn ei dystiolaeth: "Cysylltu addysg, hyfforddiant, ymchwil, menter a'r economi yw'r unig ffordd ymlaen".

(ii) Mae'n bwysig peidio â bod yn rhy gul wrth ystyried beth sy'n cyfrif fel 'cyfraniad economaidd'. Mae cymdeithas fwy cynhwysol, fwy cydlynus a mwy hyderus yn debygol o fod yn fwy llwyddiannus yn economaidd hefyd. Yn y cyswllt hwn, rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn eu tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 16 Ebrill i "gynyddu i'r eithaf fuddion diwylliannol a chymdeithasol ... SAUau, yn enwedig o ran ehangu cyfranogiad, gwella bywyd cymunedol, a chryfhau'r iaith Gymraeg". Bydd yr Arolwg Rhyngweithiad Addysg Uwch-Busnes a Chymuned (HEBCIS) blynyddol o'r DU gyfan a gyhoeddir cyn bo hir hefyd yn dangos bod cefnogi datblygiad cymunedol yn uchel ar restr flaenoriaethau SAUau Cymru.

(iii) Mae'r cyd-destun polisi y mae AU yn gweithredu o'i fewn yng Nghymru yn dra gwahanol i hwnnw yng ngweddill y DU. Mae hyn yn bwysig iawn wrth ystyried tystiolaeth o gyrff y DU nad ydynt yn gweithredu ar raddfa fawr yng Nghymru. Er enghraifft, mae profiad y Cynghorau Sgiliau Sector yn aml yn wahanol yng Nghymru o'i chymharu â mannau eraill. Cymru yw un o ddau yn unig o ranbarthau Asiantaeth Datblygu Ranbarthol y mae ei SAUau yn gweithio gyda phob un o'r 25 CSS, gan arwain at nifer o fentrau cydweithiol blaenllaw megis y "Prosiect Sgiliau Diwydiant Bwyd" sy'n gysylltiedig ag Improve, ac ymwneud helaeth y CSSau yn y prosiectau a chonsortia sgiliau lefel uchel ar gyfer hyfforddiant diwydiannol a sefydlwyd drwy Gronfa Datblygu Gwybodaeth Llywodraeth y Cynulliad, y darparwyd enghreifftiau niferus ohonynt yn y dystiolaeth o'r CSSau.

(iv) Yn y cyswllt hwn, mae'n bwysig bod yn effro i effaith bosibl sefydlu'r Adran Arloesedd, Prifysgolion a Sgiliau (DIUS) newydd yn Whitehall. Mae sefydlu'r adran newydd hon yn golygu y rhoddir llawer mwy o bwyslais, a chroesewir hyn, ar arloesed ar draws y DU gyfan, ac y rhoddir llawer mwy o sylw i brifysgolion gan y llywodraeth yn Lloegr. Sut bynnag, mae natur y datblygiad trefniadaethol hwn yn golygu ei bod hi'n debygol y bydd tuedd i geisio tynnu'n nes at ei gilydd ddimensiynau DU-eang gwaith yr Adran (yn bennaf drwy'r Cynghorau Ymchwil a'r Bwrdd Strategaeth Technoleg) a'r dimensiynau Lloegr-yn-unig (yn bennaf, at bwrpas y drafodaeth hon, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (CCAULl)). Er y byddai hyn yn ddealladwy, mae yma hefyd berygl posibl i genhedloedd datganoledig y DU, sef y gallai'r dymuniad i sicrhau mwy o gydlyniad strategol olygu nad oedd digon o ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r amrywiaeth o agendâu ar draws y DU ac y gallai hyn arwain at ffocws wedi'i "ogwyddo'n ormodol at Loegr" ar gyfer agweddau ar waith yr Adran sy'n cwmpasu'r DU gyfan. Mae hyn yn berygl y bydd angen i bob ochr ymdrin ag ef mewn ffordd sensitif. Yn y cyswllt hwn, rydym yn croesawu'r ffaith bod gwerth y system cymorth deuol yn cael ei ailddatgan ym mhapur gwyn Mawrth 2008 yr Adran Arloesedd, Prifysgolion a Sgiliau "Innovation Nation", gyda'i gyfeiriad at sut mae dwy adain y system yn cyfuno "to drive excellence in the research base with flexibility to respond to changes and opportunities" (para.5.13). Yr hyn sy'n bwysig , o safbwynt y cenhedloedd datganoledig, yw bod ffocws DU-eang y Cynghorau Ymchwil yn cael ei gynnal.

### Pobl Fedrus

6 Mae gallu SAUau i gynhyrchu pobl fedrus yn dibynnu ar ansawdd y ddarpariaeth AU. Cytunwn yn gryf â'r rheiny sydd wedi nodi bod cynnal ansawdd y ddarpariaeth AU yng Nghymru o bwys aruthrol, sut bynnag y mae'n cael ei chyflwyno a beth bynnag yw'r lefel o

gyrhaeddiad a geisir.  Mae hyn yn dibynnu yn y tymor hir ar y lefel o gyllid creiddiol sydd ar gael, gan mai dyma'r sylfaen y mae sefydliadau'n gweithredu arni ac sy'n sail, yn ei dro, iddynt fynd i mewn i'r farchnad a chyflenwi anghenion uniongyrchol busnesau a chyflogwyr eraill drwy, er enghraifft, datblygiad proffesiynol parhaus, darpariaeth yn y gweithle, ac yn y blaen.  Er y bydd yr union lefel o gyllid a ddarperir o'r pwrs cyhoeddus bob amser yn dibynnu ar flaenoriaethau, heb lefel greiddiol o fuddsoddi sy'n cystadlu â honno ar gyfer gweddill y DU, ni fydd Cymru'n gallu cyflawni i'w llawn botensial.  Rydym wedi cyflwyno adroddiad bob blwyddyn ers tair blynedd bellach sy'n cynnwys dadansoddiad o'r cyllid a dderbynnir gan y sector AU yng Nghymru o'i gymharu â gweddill y DU, a chroesawn y bwriad i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i roi sylw i ddyfodol addysg uwch yng Nghymru.

7 Ynghylch rhai o'r pwyntiau penodol a gafodd sylw gan dystion eraill yn yr ymchwiliad, hoffem roi sylwadau ar y canlynol:

Pynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (GTPM/STEM)

8 Ymhlith eraill, mynegodd y CBI bryderon ynghylch y nifer o bobl ifanc sy'n graddio gyda graddau yn y pynciau hyn. Er bod ein dadansoddiad ni yn dangos bod y broblem hon yn llai difrifol yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o'r DU, rydym ni'n:

gweithio gyda CCAULl i gadw llygad ar y sefyllfa mewn perthynas â'r pynciau hyn wrth iddi ddatblygu;

gweithio gyda Grŵp Llywio GTPM CCAULl, sy'n cydweithio gyda'r Academi Beirianneg Frenhinol, y Gymdeithas Gemeg Frenhinol, y Sefydliad Ffiseg a'r Sefydliad Mathemateg, ac yr ydym ni'n cyfrannu £375k y flwyddyn drwyddo i gefnogi pynciau GTPM yng Nghymru yn 2007/08 a 2008/09; a byddwn yn

ffurfio cysylltiadau mwy ffurfiol o fis Awst 2009 â'r Rhaglen Genedlaethol ar gyfer GTPM sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd gan y Grŵp Llywio GTPM.

## Graddau Sylfaen

9 Roedd SkillsActive, y CSS ar gyfer Hamdden a Dysgu Gweithredol, ymhlith nifer a oedd o blaid datblygu graddau sylfaen yng Nghymru.  Yn ein hymateb i ymgynghoriad Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru Llywodraeth y Cynulliad, rydym eisoes wedi cynnig y dylid symud tuag at ehangu graddau sylfaen yng Nghymru.  Byddem yn croesawu:

cysylltu hyn â Gweithred 130 yng Nghynllun Cyflenwi Cymru'n Un sy'n cyfeirio at ystod o raddau sylfaen newydd wedi'u harwain gan gyflogwyr - ac sydd ynddo'i hun yn gyfrwng ar gyfer cryfhau rhyngweithio rhwng AU a busnes;

datblygu graddau sylfaen drwy gydol 2008/ 2009 gan gonsortia sy'n cynnwys partneriaid AU, AB a busnes, gyda'r nod o sicrhau eu bod ar gael i fyfyrwyr yn 2009/10 ac wedyn (fel yr awgrymir hefyd yng Ngweithred 130);

yr adnoddau i gyflawni hyn trwy gyfrwng cyllid rheolaidd ychwanegol ar gyfer myfyrwyr gradd sylfaen.

## Gweithio'n agos â chyflogwyr

10 Mae'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn dangos sut y mae'r holl SAUau yn gweithio'n agos â chyflogwyr (ac yn yr ystyr hon yn "wynebu busnes" yn iaith adroddiad Sainsbury).  Serch hynny, mae ymwneud SAUau â chyflogwyr yn amrywio yn ôl eu cenhadaeth, cymysgedd o bynciau, ac amgylchiadau economaidd lleol.   Amrywiaeth yw nodwedd allweddol yr ymwneud hwn a bydd yn bwysig peidio â cholli'r amrywiaeth hon wrth i ni ymdrechu i gryfhau'r berthynas rhwng SAUau a chyflogwyr.

11 Bydd hefyd yn bwysig sicrhau, drwy gyfrwng deialog ofalus a phartneriaeth â chyflogwyr, fod cydbwysedd synhwyrol rhwng ceisio cynhyrchu graddedigion sy'n barod ar gyfer swyddi penodol ar hyn o bryd a meithrin sgiliau a fydd yn galluogi cyflogwyr i arloesi yn wyneb sialensiau economaidd a pholisi y dyfodol.  Fel y nododd prif weithredwr cwmni seiliedig-ar-wybodaeth a ddyfynnwyd gan y Dr Marilyn Wedgwood yn ei hadroddiad Higher Education Workforce: Barriers and Facilitators to Employer Engagement (Adroddiad Ymchwil 08 04 yr Adran Arloesedd, Prifysgolion a Sgiliau, 2008), "Occupational skills turn my business over, intellectual skills move my business on".

12 Ar hyn o bryd mae CCAUC yn rhoi cymorth i SAUau yng Nghymru i gryfhau cysylltiadau â chyflogwyr drwy:

ddefnyddio rhan o'r cyllid Trydedd Genhadaeth blynyddol o £6.1 miliwn i gefnogi dros 20 swydd datblygu busnes (heb gyfrif swyddi eraill ym meysydd trosglwyddo technoleg a menter/mentergarwch);

cyllido Rhaglen Mewnwelediad Strategol gydweithiol sy'n galluogi staff yn y pedwar sefydliad sy'n cymryd rhan i ymgymryd â secondiadau â chyflogwyr yn y sectorau cyhoeddus a phreifat er mwyn hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth a meithrin perthnasoedd mwy ffrwythlon;

defnyddio £2 filiwn bob blwyddyn o'r £6.4 miliwn y flwyddyn a neilltuir yn ystod y tair blwyddyn academaidd nesaf yn sgil Adolygiad Graham o fyfyrwyr rhan-amser i hyrwyddo cysylltiadau â chyflogwyr yng nghyd-destun astudio rhan-amser;

ein cynllun GO Wales yr ydym wedi cael ein gwahodd gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), ers i ni ymddangos ddiwethaf gerbron y Pwyllgor, i gyflwyno cynllun busnes ar ei gyfer er mwyn denu rhagor o arian o Ewrop;

cymorth ar gyfer astudiaeth dichonoldeb i Ganolfan Cymru Gyfan ar gyfer Datblygu'r Gweithlu.  Mae Bwrdd Ymgynghorol wedi'i sefydlu a dechreuwyd ar y gwaith o ddilysu graddau sylfaen.  Mae nifer y cyfranogwyr ar draws Cymru'n parhau i dyfu;

ein partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach sydd hefyd yn helpu i hybu cydweithio rhwng SAUau a chyflogwyr, gan gynnwys drwy

gyfrwng y Gymraeg ac yn aml mewn partneriaeth â'r sector AB. Er enghraifft, mae adroddiad a gomisiynwyd gan Bartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach Gogledd Cymru i ddarganfod anghenion addysg a hyfforddiant ôl-16 posibl lleol yn y dyfodol bellach yn cael ei ddefnyddio mewn trafodaethau â CSSau am berthnasoedd gwaith yn y dyfodol.

### Dimensiynau Rhyngwladol

13 Mae globaleiddio gweithgaredd economaidd yn gyffredinol, a'r farchnad am lafur medrus yn benodol, yn golygu bod yn rhaid i Gymru fod yn effro i'r newidiadau mawr sy'n digwydd o dan yr agendâu Lisbon a Bologna. Mae datblygiadau diweddar mewn perthynas â Bologna yn ymwneud â chymwysterau lefel uwch ar gyfer gweithlu symudol wedi'i addysgu'n dda a all weithio ar draws Ewrop ac y tu hwnt. Yn ôl arolwg Uned Ewrop AU y DU o ymwneud gwledydd y DU â Phroses Bologna, mae SAUau Cymru mewn sefyllfa dda o safbwynt Ewropeiddio hyfforddiant sgiliau lefel uwch. Ond nid yw Cymru yn gwneud cystal â gweddill y DU o ran nifer y myfyrwyr sy'n dewis astudio dramor o dan y cynllun ERASMUS. Hefyd mae tuedd ddatblygol ar hyd a lled y DU i fyfyrwyr ddewis ymgymryd â lleoliadau gwaith tramor mewn gwledydd lle siaredir Saesneg. Ond mae CCAUC yn gysylltiedig â chynlluniau rhagarweiniol i ddatblygu Consortiwm Lleoliadau Erasmus cyntaf y DU ac mae wedi cyflwyno'r syniad hwn i'r trafodaethau cychwynnol â'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ieithoedd (CILT) ar addasu strategaeth "Ieithoedd Sy'n Cyfrif "Llywodraeth y Cynulliad.

### Cymhwyso Gwybodaeth

14 Cyn gallu cymhwyso gwybodaeth, rhaid ei chreu. Dyma broses ymchwil. Mae ein sylwadau cynharach am sylfaen gyllido gystadleuol yr un mor berthnasol yn y cyswllt hwn, ac mae tystiolaeth ymatebwyr eraill wedi eu hategu. Mae cyrraedd y targed yn "Ymgeisio'n Uwch" o gynyddu'r canran o incwm Cynghorau Ymchwil y DU a enillir gan Gymru i 4.5% yn golygu bod yn rhaid i ni redeg yn gyflymach na gweddill y DU er mwyn dal i fyny. Ni ellir gwneud hyn heb gael cyllid creiddiol digonol, er ei bod yn bwysig cyfuno hyn ag ailstrwythuro sylfaen ymchwil Cymru er mwyn adeiladu timau sy'n ddigon mawr ac eang i lwyddo o dan amodau modern. Mae'r mater hwn yn dod yn fwyfwy pwysig wrth i ni nesáu at gael canlyniadau Ymarfer Asesu Ymchwil (YAY) 2008, a dywedwn ychydig yn rhagor isod am ddatblygiadau cydweithiol.

15 A gawn ni nodi ei bod hi'n hawdd, fel y mae rhai tystion wedi'i wneud, i ddefnyddio'r YAY yn fwch dihangol ar gyfer problemau a wynebir gan ymchwilwyr neu adrannau unigol ynghylch y cyllid a ddyrennir iddynt o grant bloc eu sefydliad, neu eu gallu i weithio'n agos â defnyddwyr posibl eu hymchwil.

16 Wrth gwrs, nid yw unrhyw ddull asesu yn berffaith. Mae'r YAY wedi esblygu cryn dipyn dros y blynyddoedd yng ngoleuni profiad, ac mae'n parhau i esblygu. Ond hoffem nodi hefyd ein hymrwymiad i barhau i gyllido'r ymchwil gorau yn unig (gan na fydd dim byd llai yn cwrdd ag anghenion Cymru). Mae hyn yn awgrymu bod angen dewis a dethol ac felly bod angen dull o asesu ansawdd ymchwil. Nid yw llawer o'r honiadau a wneir am ganlyniadau niweidiol yr YAY (e.e. mewn perthynas â rhwystrau i ryngddisgyblaethedd, neu i ymchwil cymhwysol) yn cael eu hategu gan y dystiolaeth, ac weithiau maent hwy'n deillio o ddryswch rhwng darganfod gwybodaeth newydd (ymchwil) a chymhwyso'r wybodaeth bresennol i amgylchiadau newydd. Mae'r ail yn bwysig, ond mae'n wahanol i ymchwil, a daw'r cyllid ar ei gyfer o ffynonellau Trydedd Genhadaeth, nid ymchwil.

17 Mae'n werth nodi hefyd, er gwaethaf yr holl feirniadaeth, mai sylfaen ymchwil y DU yw'r ail gryfaf yn y byd, y tu ôl i'r UDA yn unig yn ôl tystiolaeth megis nifer y cyhoeddiadau a gynhyrchir a'r gyfran o ddyfyniadau (sy'n fesur o'i heffaith). Mae'n rhesymol tybio bod y cymhelliad a ddarperir gan yr YAY, ynghyd â'r strategaeth o gyllido ymchwil yn ddetholus i wobrwyo rhagoriaeth (gan gynnwys yn nhermau effaith), wedi cyfrannu at y sefyllfa gref hon.

### Cyfnewid a Masnacheiddio Gwybodaeth

18 Mae'r Pwyllgor wedi clywed am lawer o enghreifftiau o weithgaredd SAUau yn y maes hwn a sut mae Cymru yn gwneud yn well na rhanbarthau eraill y DU mewn meysydd allweddol - yn enwedig mewn perthynas â mentrau bach i ganolig anodd eu cyrraedd sydd mor amlwg yn economi Cymru. Er enghraifft, dengys data HEBCIS ar gyfer 2005/06 fod Cymru'n cyfrif am bron 9% o incwm y DU o gontractau ymgynghori â mentrau bach i ganolig a bron 8% o'r datblygiad proffesiynol parhaus.

19 Cyhoeddir arolwg HEBCIS 2006/07 y mis hwn. Bydd unwaith eto yn dangos bod Cymru'n gwneud yn dda. Er enghraifft, disgwyliwn gadarnhad o gynnydd parhaus mewn incwm o ymchwil cydweithiol gyda diwydiant ac ymrwymiad strategol cynyddol i'r agenda hwn ar ran SAUau Cymru.

20 Mae'r Pwyllgor hefyd wedi derbyn tystiolaeth bod gan rai SAUau bartneriaethau cryf â busnesau a chyrff eraill. Rhai enghreifftiau pellach yw:

cytundeb £25 miliwn 10 mlynedd Prifysgol Caerdydd gyda Biofusion i ddarparu cronfa wedi'i diogelu i fuddsoddi mewn cwmnïau sy'n deillio o sylfaen ymchwil y brifysgol;

buddsoddiad Alliance Boots yn Sefydliad Gwyddorau Bywyd Prifysgol Abertawe i sefydlu "Canolfan Arloesedd Boots" i ddatblygu cynhyrchion mewn amryw feysydd;

ym Mhrifysgol Morgannwg, y rôl rheoli prosiectau a chwaraeir gan y Ganolfan Ymchwil Peirianneg a Chymhwyso Amgylcheddol (CEREA) mewn perthynas â phrosiectau gwerth £12 miliwn sydd â'r nod o hybu adfywio cymdeithasol drwy gyfrwng prosiectau amgylchedd adeiledig gyda chleientiaid megis Cyngor Caerffili a Chyngor Rhondda Cynon Taf.

21 Ond mae angen gwneud rhagor. Er enghraifft, ers i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth gadarnhau wrth y Pwyllgor eu bod yn bwriadu gweithredu Adolygiad Gibson, cymerwyd camau eisoes i

ragbrofi'r Panel Masnacheiddio cyntaf, ym Mhrifysgol Cymru, Casnewydd, ac rydym yn helpu'r swyddogion i wneud cynnydd pellach.

22 Yn ogystal, buom yn cynorthwyo swyddogion yr Adran Economi a Thrafnidiaeth i brosesu ceisiadau cychwynnol ar gyfer cyllid o dan y prosiect "Academia dros Fusnes", a gyhoeddwyd gan y ddau Weinidog ym mis Ebrill fel y prosiect cyntaf i'w gymeradwyo yn y rownd newydd o gyllid strwythurol. Mae'r ddwy raglen o fewn Academia dros Fusnes, sef "Datblygu'r Gallu i Elwa ar Wybodaeth" a "Throsglwyddo Gwybodaeth ac Ymchwil Diwydiannol", yn adlewyrchu argymhellion Gibson a byddant yn adeiladu ar gyflawniadau Cronfa Datblygu Gwybodaeth (KEF) Llywodraeth y Cynulliad, a fydd yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2008. Croesewir hyn gan y tystion hynny, fel SEMTA, sydd wedi rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor ynghylch pwysigrwydd parhau â gweithgaredd KEF. Rydyn ninnau'n ei groesawu oherwydd y pwysigrwydd a roddwn i natur gydategol y ffrydiau cyllido deuol a ddarperir gan ein Cronfa Trydedd Genhadaeth ni ac Academia dros Fusnes.

## Cydweithio

23 O ystyried yr amgylchedd ariannol presennol, fodd bynnag, mae'n bwysig i ni barhau i annog SAUau i adeiladu gallu ym meysydd ymchwil a chyfnewid gwybodaeth drwy weithio gyda'i gilydd, i sicrhau ei fod yn ddigon mawr ac eang ei gwmpas. Rydym eisoes yn cefnogi:

cynlluniau ymchwil mawr megis Partneriaeth Ymchwil a Menter Aberystwyth-Bangor ac, yn amodol ar gytuno ar y manylion terfynol, y Sefydliad Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, y Sefydliad Ymchwil Carbon Isel, Sefydliad Gwyddorau Mathemategol a Chyfrifiannol Cymru, Sefydliad Niwrowyddoniaeth Wybyddol Cymru, ac, ym Mangor, ar y cyd â'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, y Ganolfan dros Ymchwil i Theori ac Ymarfer Dwyieithrwydd;

sefydlu Partneriaeth Arloesedd y Ddraig, gan ddwyn ynghyd weithgareddau trydedd genhadaeth Prifysgol Abertawe, Prifysgol Fetropolitan Abertawe a Choleg y Drindod Caerfyrddin er mwyn cryfhau eu heffaith ar ddatblygu economaidd a chymdeithasol yn Ne-Orllewin Cymru yn arbennig, yn ogystal ag yng Nghymru ac y tu hwnt; a gweithgareddau trydedd genhadaeth cydweithiol eraill sy'n digwydd ar draws Cymru (yn aml gyda phartneriaid yn y sectorau AB a busnes hefyd).

24 Yn ogystal, heb ymwneud CCAUC, mae'r sector ei hunan yn gweithio gyda'i gilydd i ddenu Cyllid Strwythurol Ewropeaidd i gefnogi, er enghraifft, graddau sylfaen, dysgu yn y gwaith, Ysgoloriaethau Sgiliau Economi Gwybodaeth, a SPEED Cymru (rhaglen leoliadau wedi'i hanelu at entrepreneuriaid y dyfodol sydd â'r nod o gynyddu'r llif o gwmnïau seiliedig ar wybodaeth i mewn i economi Cymru).

25 Ar ôl dweud hynny, nodwn hefyd sylwadau rhai tystion o fyd busnes, ac yn Adolygiad Gibson, am yr anawsterau a wynebant wrth geisio cyfathrebu â SAUau. Nodwn yn arbennig y farn nad yw gwefannau rhai SAUau (gan eu bod wrth reswm wedi'u cynllunio i hybu eu prif fusnes cynhyrchu incwm, sef myfyrwyr) yn arbennig o gyfeillgar i fusnesau. Byddwn yn ceisio mynd i'r afael â hyn drwy, er enghraifft, ein cynllun GO Wales a rhwydweithiau sefydledig eraill megis y Grŵp Cyfathrebiadau SAUau-CSSau a sefydlwyd gan CCAUC a'r Asiantaeth Datblygu Sgiliau Sector (SSDA). Yn dilyn diddymu'r Asiantaeth hon yn sgil Adroddiad Leitch, mae CCAUC yn bwriadu parhau i hwyluso'r Grŵp Cyfathrebiadau a sefydlwyd gyda'r nod o gefnogi cydweithredu strwythuredig strategol rhwng SAUau a CSSau yng Nghymru i gyflawni polisïau a strategaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## Casgliad

26 Gobeithiwn y bydd y nodyn hwn, ynghyd â'n cyflwyniad gwreiddiol, o gymorth i'r Pwyllgor drwy ei helpu i lunio barn gynhwysfawr ynghylch yr hyn y mae SAUau Cymru eisoes yn ei gyfrannu i'r economi ac ym mha ffyrdd, a thrwy nodi'r potensial ar gyfer datblygu'r cyfraniad hwn ymhellach yn y dyfodol. Rydym bob amser at wasanaeth y Pwyllgor yn ei waith ar y pwnc hwn.